

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 21 o Fawrth 2017

Presennol: Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Dyfed Williams

Ymddiheuriadau: Cyng. Gwynfor Lloyd Jones
Cyng. Einir Thomas

- 1. Datganiad o ddiddordeb** - Cyng. Gwilym O. Jones a Cyng. Dyfed Williams - eitem 5 SP Energy Networks.
- 2. Cofnodion cyfarfod 21 o Chwefror 2017**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury, eilio Cyng. William Victor Owen.)
- 3. Materion yn codi o'r cofnodion.**

1. Cae chwarae: - Cytunwyd i ofyn i G. L. Jones Playgrounds Ltd am ddyfynbris ar gyfer paentio'r offer chwarae gan nad oedd Mr Frank Rowlands yn gallu gwneud y gwaith. Nodwyd hefyd bod G. L. Jones o'r farn bod y pyst gôl oedd ar y darn tir cyfagos yn annigol. Gofynnwyd i'r clerc roi gwybod i'r Cyngor Sir.

Cytunwyd i ofyn i Mr Medwyn Owen gynnal arolygiad chwarterol ar yr offer chware o 1 Ebrill 2017 - Cafwyd pris o £150.00 am y flwyddyn a chostau teithio.

2. Llwybrau: - 'Roedd y gwaith o dorri llwybr troed 8 ac o gwmpas y bont ar lwybr troed 25 heb ei wneud eto.

3. Llochesi Bws - Adroddwyd bod y lloches bws gyferbyn â'r eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn wedi ei difrodi, felly gofynnwyd i Mr William Evans am ddyfynbris ar gyfer atgyweirio'r lloches hon, yn ogystal â'r un wrth gyffordd yr A55. Byddai cyfanswm y bil atgyweirio yn £805 â THAW. Gofynnwyd i'r clerc edrych a fyddai'n briodol i wneud hawliad yswiriant cyn cytuno i wneud y gwaith atgyweirio.

Cafwyd cwynion am gyflwr y lloches bws oedd ar y gyffordd rhwng Lôn Minffordd a Ffordd Dinam. Nodwyd mai'r MOD fyddai yn gyfrifol am hon a chytunwyd y byddai'r clerc yn gwneud ymholiadau pellach gyda nhw, nodwyd hefyd ei bod yn cael ei defnyddio yn rheolaidd.

Llofnod.....Cadeirydd.....

4. Etholiadau Cyngorau Cymunedau a Tref 2017 - Dosbarthwyd pecynnau etholiadol i'r Aelodau, a nodwyd bod rhaid i'r enwebiadau gael eu derbyn cyn 4 o'r gloch ar 4 Ebrill 2017.
5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion: - Dywedodd Cyng. Gordon Owen fod SP Energy Networks wedi cysylltu hefo fo ynghylch y prosiect ceblau newydd yng Nghaergeiliog. Addawodd y byddai'n rhoi gwybod i'r Cyngor Cymuned os bydd datblygiadau pellach.

4. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref

Ceisiadau Cynllunio

32C201 Alltwn Goch - Cais ôl-weithredol ar gyfer codi modurdy - Cytunwyd i fynegi pryderon am nifer o geisiadau ôl-weithredol oedd yn cael eu cyflwyno.

Penderfyniadau Cynllunio

32C17P / SCR - Hotel Cymyran Llanfair yn Neubwll - Barn sgrino i gadw 5 bwthyn gwyliau, tair ystafell wely mewn cysylltiad â'r datblygiad parhaus – dim angen asesiad

32C200 - 1 Bryn Trewan, Caergeiliog - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - Cytunwyd.

5. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn

1. Grantiau i fudiadau gwirfoddol 2017/2018 - nodwyd
2. Pwyllgor Safonau - Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru. cyflwynwyd nodyn briffio a oedd yn cynnwys crynodeb o'r penderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu Cymru a nodyn briffio ar y Datganiad a Chofrestru Buddiannau yn y Cyngorau Tref a Chymuned. Nodwyd fod rhaid tynnu hwn a'r cod ymddygiad i sylw pob aelod yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai.
Nodwyd hefyd fod Llanfair yn Neubwll ymhlith y lleiafrif o Gyngorau cymunedol a oedd yn cydymffurfio â gofynion o ran y 'Datganiad o Fuddiannau.
3. Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017- 2022 - nodwyd.
4. Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned - bydd y cyfarfod nesaf ar 29 Mehefin 2017.
5. Caniatâd Arbennig - Cyflwynwyd a nodwyd - nodyn briffio gan y Pwyllgor Safonau yn rhoi gwybod bod newidiadau deddfwriaethol wedi eu gwneud mewn perthynas â'r seiliau statudol y gall Cyngorwyr ddibynnu arnynt er mwyn gwneud cais am Ganiatâd Arbennig

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

os oes ganddo/ganddi ddiddordeb sy'n rhagfarnu.

6. Arbrawf Gorfodaeth - hysbysiad gan CSYM eu bod yn bwriadu cynnal treial gyda chwmni Kingdom - sef cwmni gorfodi allanol fydd yn dosbarthu cosb benodedig o £75 am daflu sbwriel a gadael baw cŵn. Nodwyd bod yr aelodau yn gefnogol o hyn.

6. Materion Ariannol

Yn y banc ar 21.3.2017 Cyfrif Cyfredol £8431.96, Cyfrif Cadw £3,921.50

Taliadau i'w gwneud

Cyflog y clerch (Chwefror.)	£178.14	HMRC (TWE)	£44.54
Cyfieithu	£70.00		

Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury, eilio Cyng. Gordon Owen.)

7. Dogfennau Statudol: -

Cytunwyd i dderbyn y ddogfen Rheolau Sefydlog (adolygwyd Mawrth 2017) heb eu diwygio.

Trafodwyd y ddogfen Rheoliadau Ariannol (adolygwyd Mawrth 2017) ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor Cymuned.

8. Archwilio Mewnol

Cytunwyd i ofyn i Mr John Roberts i gynnal yr archwiliad mewnol ar gyfrifon 2016/17 cyn eu cyflwyno i'r archwilyr allanol.

9. Gohebiaeth Eraill:-

1. Adroddiad Blynyddol PACGA

Nodwyd fod Adran 13 yn berthnasol i Daliadau i Aelodau Cyngorau Cymuned a Thref.

2. Ymgynghoriad ar gylchlythyr drafft ar gyfer cynllunio safleoedd sipswyn, teithwyr a siewmyn - nodwyd.

3. Bwletin Un Llais Cymru Ionawr 2017 - nodwyd.

4. Bwrdd y Gofalwyr Tywyn Trewan - nodwyd bod Miss Meinir Hughes wedi ymddiswyddo

Llofnod.....Cadeirydd.....

fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned. Cytunodd Cyng. Gordon Owen gynrychioli'r Cyngor yn y tymor byr a dywedodd y byddai'n mynychu'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 2 o'r gloch ar 22ain o Fawrth.

10. Unrhyw fater arall:-

Dywedwyd fod Cyng. David Walters o Gyngor Cymuned y Fali wedi tynnu sylw at gyflwr y ffordd i lawr o Tyn Giât i Draeth Cymyran, a chadarnhaodd Cyng. Beryl Salisbury ei bod bron yn amhosib mynd lawr yno mewn cerbyd cyffredin. Cytunwyd y byddai'r clerc yn cysylltu â Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan ynglŷn â hyn i amdano yn y lle cyntaf.

11. Cyfarfod nesaf 18 o Ebrill 2017.

Llofnod.....Cadeirydd.....